Gweithio dros aelodau 2007-08

Cyflwyniad y Cadeirydd

Simon Jones, Cadeirydd

Bu eleni yn un o'r blynyddoedd prysuraf a mwyaf heriol i Gonffederasiwn GIG Cymru hyd yma, ac yn sicr un o'r rhai mwyaf boddhaus. Mae dau ddigwyddiad allweddol wedi tra-arglwyddiaethu ar ein gwaith yn ystod y deuddeg mis diwethaf; yn gyntaf dyfodiad cynlluniau ad-drefnu graddfa fawr ar gyfer GIG Cymru, ac yn ail, newid sylfaenol i rôl a chylch gorchwyl y Conffederasiwn wrth i ni ymestyn ein cyfrifoldebau i ddarparu Uned Cyflogwyr GIG Cymru.

Bu gan y ddau ddigwyddiad yma ran fawr wrth lunio ein hagenda gwaith ar gyfer y flwyddyn, ond wrth ochr hyn, rydym wedi parhau gyda'n gwaith rheolaidd o ddylanwadu ar bolisi, cefnogi aelodau a chysylltu pobl ar draws y gymuned iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein cynhadledd flynyddol yn parhau i fod yn brif ddigwyddiad y calendr iechyd, gyda dros 300 o gynrychiolwyr yn bresennol y llynedd i glywed y syniadau diweddaraf gan ein rhaglen o siaradwyr proffil uchel.

Ar adeg mor brysur a phwysig i'r GIG, gall fod yn anodd dod o hyd i'r amser i bwyso a mesur popeth a gyflawnwyd. Gobeithiaf y cewch yr adolygiad hwn yn drosolwg defnyddiol a diddorol o'n gweithgareddau ar ran ein haelodau drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Ein nerth bob amser fu ein sefyllfa unigryw fel llais unigol awdurdodol ac annibynnol rheolwyr GIG. Mae'r ffaith fod 100% o holl sefydliadau GIG Cymru yn aelodau'r Conffederasiwn yn gwneud gwahaniaeth mawr wrth sicrhau y caiff ein llais ei glywed. Diolch i bawb am eich cefnogaeth barhaus.

Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Uned Cyflogwyr yn ymestyn ein rôl yn GIG Cymru

Cychwynnodd Conffederasiwn GIG Cymru ar gyfnod newydd yn 2008 gan ddod yn gyfrifol am sefydlu a rhedeg Uned Cyflogwyr GIG, gyda chylch gorchwyl i gefnogi, cynghori a chynrychioli cyflogwyr wrth ddatblygu polisi adnoddau dynol. Mae hyn yn symudiad cyffrous mewn cyfeiriad newydd ar gyfer y Conffederasiwn, sy'n ein galluogi i gryfhau llais ein haelodau wrth ddatblygu polisi ar y lefel uchaf. Mae gan yr uned newydd eisoes agenda heriol a chynyddol, a fydd yn gweld ei broffil a dylanwad yn cynyddu ar draws y gymuned iechyd yn 2009.

Sicrhau y caiff lleisiau aelodau eu clywed

Bu Conffederasiwn GIG Cymru yn gweithio'n galed, yn aml tu ôl i'r llenni, yn dylanwadu ar y cynlluniau ar gyfer ailstrwythuro graddfa fawr ar GIG Cymru. Fe wnaethom drefnu digwyddiad trafod ar gyfer uwch reolwyr GIG yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer ein hymateb terfynol i'r Gweinidog. Sicrhaodd ein sefyllfa unigryw i weithredu fel un llais annibynnol fod ein hymateb yn ddylanwadol iawn, gyda llawer o'i brif bwyntiau yn cael eu hadlewyrchu yng nghanlyniad yr ymgynghoriad. Bu'n amser gwerth chweil iawn i'r Conffederasiwn, gyda'r cynlluniau terfynol sy'n awr yn dod i'r amlwg yn dangos nodweddion gwaith a wnaethpwyd ar ran ein haelodau.

Gwasanaethau newydd yn profi'n boblogaidd gydag aelodau

Fe wnaethom lansio tri gwasanaeth newydd yn ystod y flwyddyn i helpu sicrhau fod ein haelodau'n derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiadau yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a thramor sy'n effeithio arnynt. Mae Bay Watch, ein bwletin gwleidyddol wythnosol, yn giplun o'r holl newyddion yn gysylltiedig ag iechyd o'r Cynulliad a daeth yn gyswllt cyfathrebu hanfodol a phoblogaidd gyda llywodraeth. Mae crynhoad wythnosol o'r wasg yn rhoi crynodeb defnyddiol o newyddion iechyd o Gymru yn ogystal â sôn am ddatblygiadau polisi ar draws y Deyrnas Unedig. Mae Reportage, bwletin chwarterol a gynhyrchir mewn cysylltiad gyda'n cydweithwyr yng Ngogledd Iwerddon, yn rhoi'r newyddion diweddaraf am bolisi iechyd o Ewrop.

Uchafbwyntiau eraill

Cysylltu

- Daeth ein cynhadledd flynyddol yn 2007 â dros 300 o bobl ynghyd o bob rhan o'r gymuned iechyd, ac o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Cynhaliwyd y gynhadledd dros ddeuddydd,

a dyma'r casgliad mwyaf o arweinwyr yng nghalendr iechyd Cymru, gyda siaradwyr arbenigol ar fater sut y gall gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gydweithio'n fwy effeithlon i ymateb i newid.

- Mae'r rhyngrwyd yn dod yn ffordd cynyddol bwysig o gyfathrebu ar draws y GIG. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwefan fel ei bod yn ffynhonnell fwy defnyddiol a hygyrch o wybodaeth ar gyfer ein haelodau, gyda newyddion ar ein gwaith diweddaraf gyda'r wasg a gwaith gwleidyddol, ac adran dolenni cynhwysfawr yn cysylltu gyda datblygiadau polisi iechyd ar draws Cymru a thu hwnt.

Cefnogi

- Fe wnaethom gynrychioli barn rheolwyr GIG ar nifer o faterion yn y wasg a'r cyfryngau, gan esbonio safbwynt ein haelodau ar faterion anodd megis cyllid, amserau aros ac ad-drefnu.

- Yn un o'r straeon mwyaf ar iechyd yn y cyfryngau yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom roi nifer fawr o gyfweliadau a sylwadau i'r wasg a'r cyfryngau ar draws y Deyrnas Unedig ar fater parcio rhad ac am ddim mewn ysbytai. Cafodd ein presenoldeb cryf yn y cyfryngau ddylanwad ar y ffordd y rhoddwyd sylw i'r stori a sicrhau fod barn y rheolwyr yn cael ei chynrychioli'n deg ac yn gywir.

- Cynhaliwyd Rhaglen Datblygu Bwrdd rhad ac am ddim i gyflwyno Cyfarwyddwyr Anweithredol Ymddiriedolaethau oedd newydd uno i gysyniadau llywodraethu yn y GIG. Bydd hyn yn parhau yn fater hollbwysig ar gyfer y GIG a bwriadwn ddilyn y sesiynau hyn gyda gweithdai ychwanegol y flwyddyn nesaf.

- Fe wnaethom gefnogi Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn y wasg, gan ddefnyddio ein gallu i weithredu fel llais annibynnol i esbonio'r anawsterau unigryw sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth wrth reoli gweithrediad mor gymhleth. Rhoddasom sylwadau cyhoeddus yn cymeradwyo'r gwaith ardderchog a wnaed gan reolwyr yr Ymddiriedolaeth mewn amgylchiadau anodd iawn.

Dylanwadu

- Fe wnaethom gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda gwleidyddion allweddol o bob plaid drwy gydol y flwyddyn, gan godi proffil materion pwysig sy'n wynebu ein haelodau a llunio'r ffordd y datblygir polisi. Rydym eleni wedi cwrdd gyda gwleidyddion amlwg yng Nghymru a San Steffan, yn cynnwys Prif Weinidog y Cynulliad, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Aelodau Seneddol o Gymru, cynghorwyr arbenigol ac Aelodau Cynulliad.

- Fe wnaethom roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin i rannu ein profiad a'n gwybodaeth o wasanaethau iechyd ar draws y ffin. Cafodd y pwyntiau a gododd ein Cyfarwyddwr, Mike Ponton, eu defnyddio'n helaeth wrth lunio adroddiad dilynol y Pwyllgor.

- Gwahoddodd Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad y Conffederasiwn i roi tystiolaeth ar gyfer ei ymholiad i'r cynigion i ailstrwythuro GIG Cymru. Cafodd ein sylwadau dderbyniad da iawn gan y pwyllgor ac mae llawer o Aelodau Cynulliad wedi defnyddio ein pwyntiau allweddol i lunio'r drafodaeth ar y cynlluniau ar gyfer ad-drefnu.

- Cafodd sylwadau a gwybodaeth a roddwyd gan y Conffederasiwn eu dyfynnu'n aml mewn sesiynau llawn yn y Cynulliad ac mewn pwyllgorau, megis yn y trafodaethau ar barcio ceir, ffioedd atodol ac ailstrwythuro.

- Buom hefyd yn gweithio i ddylanwadu ar gyfeiriad cyffredinol y drafodaeth ar iechyd yng Nghymru, er enghraifft drwy dynnu sylw at y cyfle mae ailstrwythuro yn ei roi ar gyfer cydweithio agosach rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Amlinellodd ein papur Dyfodol Clinigol ein gweledigaeth ar gyfer system iechyd a gofal cymdeithasol integredig yng Nghymru.

Hysbysu

- Fe wnaethom gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda newyddiadurwyr amlwg i fod yn sylfaen i'w sylw o faterion iechyd. Aiff llawer o'r gwaith hwn rhagddo tu ôl i'r llenni, ond mae'n allweddol wrth sicrhau fod sylw yn y wasg i faterion iechyd pwysig yn gywir a chytbwys.

- Mae ein colofn reolaidd yn y Western Mail yn parhau i dynnu sylw at faterion pwysig ar agenda rheolaeth GIG. Caiff ein colofn ei darllen yn helaeth yn y gymuned iechyd a pholisi a bu'n llwyddiannus wrth fod yn sylfaen i'r drafodaeth ar lawer o bynciau, yn cynnwys pwysigrwydd arweinyddiaeth, rôl gofal sylfaenol a dyfodol gwasanaethau iechyd meddwl.

- Mae cyhoeddiad a gynhyrchwyd ar gyfer y cyhoedd yn esbonio pam fod angen i'r GIG gyflwyno mwy o ofal allan o ysbyty ac yn y gymuned. Mae Ysbyty Gartref yn anelu i ddangos i'r cyhoedd yn union faint o'u gofal y medrir ei gyflenwi yn agos at eu cartrefi.

- Mae tri bwletin newydd rheolaidd, Bay Watch, Reportage a chrynodeb wythnosol o'r wasg, yn hysbysu aelodau am y datblygiadau polisi pwysig yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop.

- Mae ein Bwletin misol yn hysbysu aelodau am ein gwaith ar eu rhan, ac yn rhoi sylw i ddatblygiadau allweddol ar yr agenda polisi iechyd.

THE WELSH NHS CONFEDERATION
CONFFEDERASIWN GIG CYMRU

Unit 3, Waterton Park
Bridgend CF31 3PH

Tel 0845 33 00 499
E-mail info@welshconfed.org

www.welshconfed.org